ClwydAlyn

# Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl)

2023/2024




ClwydAlyn.co.uk

# Cynnwys

## Amgylcheddol


4 **Newid Hinsawdd** (Thema 1)

7 **Ecoleg** (Thema 2)

9 **Rheoli Adnoddau** (Thema 3)


## Cymdeithasol


11 **Fforddiadwyedd a Diogelwch** (Thema 4)

15 **Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau** (Thema 5)

16 **Llais y Preswyliwr** (Thema 6)

19 **Cymorth i Breswylwyr** (Thema 7)

23 **Creu Lleoedd** (Thema 8)


## Llywodraethu


29 **Strwythur a Llywodraethu** (Thema 9)

30 **Y Bwrdd** (Thema 10)

34 **Lles Staff** (Thema 11)

38 **Cadwyn Gyflenwi** (Thema 12)



















# Cyflwyniad


**Ein cenhadaeth yw trechu tlodi yng ngogledd Cymru trwy sicrhau bod cartrefi o ansawdd uchel ar gael i bawb yn ein cymunedau, a bod pobl yn gallu fforddio cadw'n gynnes, bwyta'n dda, a byw'n gysurus. Eleni, fodd bynnag, wrth i ni wynebu argyfwng hinsawdd, rydym yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar yr amgylchedd, gan gydnabod bod dyfodol mwy gwyrdd yn allweddol er lles pawb.**

Mewn rhannau o ogledd Cymru, mae disgwyliad oes wyth mlynedd yn llai na'r cyfartaledd rhanbarthol, ac mae'r disgwyliad oes iach bron i ugain mlynedd yn llai. Mae hynny'n annheg, ac er nad yw'n bosibl i ni ddatrys popeth ar ein pen ein hunain, yn ein barn ni, mae trechu tlodi ac amddiffyn yr amgylchedd yn mynd law yn llaw. O leihau allyriadau carbon a gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, i sicrhau bod mannau gwyrdd a bwyd iach ar gael, rydym yn benderfynol o greu cymdeithas decach a dyfodol gwell i'n cymunedau.

Dychmygwch fyd lle mae gan bawb gartref eco-gyfeillgar, ynni fforddiadwy, a bwyd maethlon—a hyn i gyd tra'n amddiffyn y blaned. Efallai fod hyn yn swnio fel breuddwyd, ond credwn fod modd gwireddu hyn. Wrth i'r argyfwng costau byw wneud bywyd yn fwy anodd, rydym wedi ymroi i gefnogi ein preswylwyr a'n staff mewn ffyrdd sydd hefyd yn gofalu am yr amgylchedd.

Ar hyn o bryd rydym yn rheoli dros 6,500 o gartrefi, ac mae gennym 769 o aelodau tîm talentog ac ymroddedig sy'n darparu tai a gwasanaethau ledled saith awdurdod lleol yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Ers 2018, rydym wedi darparu 730 o gartrefi newydd a'n bwriad yw ychwanegu 1,000 yn rhagor erbyn 2027/28—gyda phwyslais ar gynaliadwyedd yn llawer o'r rhain. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf o werth cymdeithasol ac amgylcheddol pob punt rydym yn ei gwario, gan gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i'r economi leol a'r blaned.

Mae'r ffaith ein bod wedi cyflwyno'r Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd yn fuan yn dangos ein bod yn ystyried yr argyfwng hinsawdd o ddifrif. Rydym yn cydbwyso ein nodau uchelgeisiol i leihau tlodi â'n cyfrifoldebau amgylcheddol, gan sicrhau bod ClwydAlyn yn cael ei lywodraethu'n dda, yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn gwneud ei ran i amddiffyn dyfodol ein cymunedau a'r blaned.




# Amgylcheddol

### Ein taith tuag at Sero Carbon erbyn 2050

**Ein nod yw bod yn Sero Carbon erbyn 2050. Rydym yn gwybod fod hyn yn her fawr, ond rydym yn gweithio'n agos gyda'n tenantiaid, gweithwyr a phartneriaid i sicrhau bod ein nodau yn uchelgeisiol ac yn realistig. I wneud hyn, rydym yn creu Strategaeth Cynaliadwyedd fanwl sy'n cyd-fynd â'r fenter Targedau sy'n Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBT), er mwyn ymdrin â phopeth rydym yn ei wneud - ein cartrefi, ein busnesau a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.**

**Nid ydym yn gwneud hyn ar ein pen eu hunain. Gyda chymorth yr ymgynghorwyr achrededig, Auditel, rydym wedi bod yn asesu ein hôl-troed carbon a gosod targedau clir ar gyfer y tymor byr,**



**y tymor canolig a'r tymor hir i'n harwain tuag at allyriadau Sero Net. Bydd ein cynllun yn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel tra'n chwarae ein rhan i fynd i'r afael â newid hinsawdd.**

Thema 1:

## Newid Hinsawdd

### Mynd i'r afael â newid hinsawdd gyda'n gilydd

Rhan fawr o'r daith hon yw deall ein hallyriadau. Rydym wedi bod yn mapio ein allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag Auditel, gan ganolbwyntio ar Gwmpas 1 (allyriadau uniongyrchol fel y tanwydd a ddefnyddir yn ein hadeiladau), Cwmpas 2 (allyriadau anuniongyrchol o'r trydan rydym yn ei ddefnyddio), a Chwmpas 3 (yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill o'n cadwyn gyflenwi a'r ynni a ddefnyddir gan breswylwyr).





Mae data cynnar yn dangos bod dros 90% o'n hallyriadau yn rhai Cwmpas 3, gyda dros 50% yn dod o'r ynni a ddefnyddir yn ein cartrefi. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi rydym yn eu darparu. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn rhannu rhagor o fanylion yn ein cynllun lleihau carbon, gan nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i leihau allyriadau a gwneud ein cartrefi hyd yn oed yn fwy cynaliadwy.

## Effeithlonrwydd Ynni: gwneud cartrefi yn gynhesach ac yn fwy gwyrdd

Mae gwella effeithlonrwydd ynni ein stoc tai yn allweddol i leihau allyriadau a sicrhau ein bod ar y llwybr cywir i gyrraedd ein targedau Sero Net. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o brosiectau ôl-osod gyda'r nod o wneud ein cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni. Dyma beth rydym wedi'i wneud:

**Uwchraddio Ynysiad:**
Rydym wedi gwella'r ynysiad yn atigau a waliau llawer o'n heiddo er mwyn colli llai o wres, cadw cartrefi'n gynhesach yn y gaeaf a lleihau'r angen am wresogi.

**Ffenestri Newydd:**
Rydym wedi gosod ffenestri modern, ynni-effeithlon yn lle hen ffenestri gwydr sengl neu ddwbl er mwyn gwella effeithlonrwydd thermol a gostwng biliau ynni y preswylwyr.

**Technolegau Clyfar:** Mewn rhai cartrefi, rydym wedi treialu'r defnydd o silindrau dŵr poeth clyfar sy'n gwresogi'r dŵr mae ei angen ar breswylwyr yn unig, gan helpu i leihau'r defnydd o ynni di-angen.

**Gwelliannau i Systemau Gwresogi:**
Rydym wedi bod yn gosod pympiau gwres ffynhonnell aer sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy yn lle hen systemau gwresogi sydd wedi dyddio, er mwyn cynhesu cartrefi yn fwy cynaliadwy.

**Datrysiadau Ynni Adnewyddadwy:**
Gosodwyd paneli solar ffotofoltaidd ar sawl eiddo ynghyd â systemau batri sy'n storio'r ynni i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn helpu i wneud y defnydd gorau o ynni adnewyddadwy ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar y grid.

**Monitro Ynni:**
Gosodwyd synwyryddion sy'n monitro lefelau CO2, lleithder a thymheredd er mwyn helpu preswylwyr i reoli eu defnydd o ynni yn fwy effeithiol.

**£2.25 miliwn**

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gosod 943 o ffenestri a 66 o ddrysau newydd a chwblhau gwaith ôl-osod mewn 127 o gartrefi. Rydym wedi buddsoddi £2.25 miliwn i wneud cartrefi ein preswylwyr yn gynhesach, yn wyrddach ac yn fwy effeithlon o ran ynni.**

Roedd Catrin Williams a'i merch 5 oed yn arfer byw gyda'i thad ac ar y rhestr aros am gartref. Roedd yn edrych ymlaen yn fawr i symud i'w chartref newydd:

**"Dw i'n edrych ymlaen i ddechrau ar bennod newydd yma, ac mae ysgol fy merch bum munud i ffwrdd ar droed hefyd."**



## Olrhain ein cynnydd

Mae ein gweithgareddau ôl-osod eisoes yn cael effaith amlwg ar berfformiad ynni ein stoc tai. Rydym yn defnyddio sgorau y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) i olrhain pa mor ynni-effeithlon yw ein cartrefi, a dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd:

Rydym wedi cymryd camau breision, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Wrth i ni barhau i ddatblygu ein strategaeth Sero Net ffurfiol, mae'r gweithgareddau ôl-osod hyn yn gamau cyntaf hollbwysig tuag at gyrraedd ein nodau cynaliadwyedd hirdymor.

| Band EPC | Sgôr SAP | Eiddo (Yn Berchen arnynt ac yn eu Rheoli) | % Stoc |
|---|---|---|---|
| A | 92-100 | 561 | 9% |
| B | 81-91 | 1183 | 19% |
| C | 69-80 | 2206 | 35% |
| D | 55-68 | 891 | 14% |
| E | 39-54 | 78 | 1% |
| F | 21-38 | 15 | 0% |
| G | 0-20 | 1 | 0% |
| Amherthnasol | | 1416 | 22% |
| **Cyfanswm** | | **6351** | **100%** |

**Sgôr EPC ein cartrefi newydd:** **A - 91.06%** **B - 8.38%** **C - 0.56%**



## Paratoi ar gyfer risgiau hinsawdd

Mae newid hinsawdd yn gofyn am wneud mwy na lleihau allyriadau - mae'n golygu paratoi ar gyfer risgiau hefyd. Fel rhan o'r broses o ddatblygu ein Strategaeth Cynaliadwyedd rydym yn edrych yn ofalus ar y risgiau hinsawdd sy'n wynebu ein cartrefi a'n cymunedau.

Gyda chymorth ymgynghorwyr amgylcheddol, byddwn yn mapio gwendidau daearyddol ein stoc tai i ganfod y cartrefi a allai fod mewn perygl oherwydd llifogydd, sychder a gorboethi wrth i batrymau hinsawdd newid. Gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), gallwn droshaenu data hinsawdd ar leoliadau ein tai i nodi'r ardaloedd lle mae angen sylw ychwanegol.

Rydym hefyd yn edrych ar effeithiau ehangach newid hinsawdd ar ein cadwyn gyflenwi. Fel rhan o'n strategaeth, byddwn yn asesu sut gall amhariadau posibl, o dywydd eithafol i brinder adnoddau, effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau. Trwy weithio'n agos gyda'n cyflenwyr, ein nod yw gwella cydnerthedd a sicrhau ein bod yn barod i wynebu'r heriau hyn.



Thema 2:

# Ecoleg

## Cynyddu mannau gwyrdd a gwella bioamrywiaeth

**Yn ein barn ni, mae cynaliadwyedd yn golygu mwy nag effeithlonrwydd-ynni – mae hefyd yn golygu creu cymunedau mwy gwyrdd a mwy llewyrchus. Dyna pam ein bod ni'n canolbwyntio ar gynyddu mannau gwyrdd a hybu bioamrywiaeth ar draws ein datblygiadau..**



**Ardaloedd Di-Dor a Blodau Gwyllt:** Rydym wedi sefydlu ardaloedd lle gall tyfiant naturiol ffynnu, gan annog rhywogaethau amrywiol a chreu ardaloedd tawel y gall preswylwyr eu mwynhau.



**Plannu Coed:** Rydym wedi ymrwymo i blannu coed ar draws ein hystadau, gan helpu i storio carbon a chreu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt lleol.



**Gwella Bioamrywiaeth:** Dros y tair blynedd nesaf, rydym am geisio cynyddu'r bioamrywiaeth ar draws ein stadau tai o leiaf 10%. Bydd hyn yn cynnwys plannu planhigion brodorol all wrthsefyll sychder a chynnal peillwyr, fel gwenyn a glöynnod byw, a chreu coridorau bywyd gwyllt sy'n cysylltu mannau gwrdd ar draws ein datblygiadau.



Maes yr Ysgol a Stryd y Bont, Ynys Môn, datblygiad o 52 cartref sy'n rhoi cynaliadwyedd a chymuned wrth galon y cynllun; gyda choed ffrwythau a gardd gymunedol ar y safle.



**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Rydym yn annog preswylwyr i gymryd rhan weithgar ym mhrosiectau bioamrywiaeth, fel garddio cymunedol a monitro bywyd gwyllt, gan feithrin teimlad o berchnogaeth a stiwardiaeth amgylcheddol.

**Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl yn dod i gysylltiad â natur, ac rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod ein cymunedau yn lleoedd mwy gwyrdd a mwy iach i fyw ynddynt.**



## Taclo Llygryddion: gwarchod iechyd a'r amgylchedd

**Er mwyn rheoli a lleihau llygryddion, rydym yn gweithredu mewn sawl ffordd i roi sylw i'r materion hyn. Dyma beth rydym yn ei wneud:**

- Rydym yn archwilio ein cartrefi yn rheolaidd am arwyddion o lygryddion niweidiol, gan gynnwys asbestos, llwydni, plwm mewn pibellau dŵr a llygryddion aer.
- Rydym yn cadw cofrestr asbestos sy'n cael ei diweddaru ac yn sicrhau bod yr holl asbestos yn cael ei drin a'i dynnu gan weithwyr proffesiynol trwyddedig yn unol â rheoliadau llym.
- I atal lleithder a llwydni, rydym yn gwella awyru, yn trefnu archwiliadau cynnal rheolaidd ac yn rhoi cyngor i breswylwyr ar sut i reoli lleithder yn eu cartrefi. →

Mae'r system wresogi newydd wedi newid bywyd, iechyd a lles preswyliwr. Dywedodd:

**"Mae'r llwydni bron â diflannu, ac mae'r tamprwydd oedd bob amser yn yr aer wedi diflannu hefyd. Dw i'n teimlo fy mod i'n anadlu ac yn cysgu'n well, a dw i'n cymryd llai o feddyginiaeth asthma. Mae'r gwres yn cyrraedd y tymheredd cywir yn gyflym, ac mae'n aros yn gynnes yma am amser hir ar ôl ei ddiffodd. Mae'n hyfryd."**




- Rydym hefyd yn canfod ac yn newid pibellau dŵr, gan flaenoriaethu cartrefi lle mae'r lefelau plwm yn uwch na'r lefelau diogel fel rhan o'n rhaglen ehangach i wella ansawdd dŵr.
- Yn achos defnyddiau peryglus fel paent a chemegion (gan gynnwys cemegion synthetig fel PFAS), rydym yn eu gwaredu'n ddiogel yn unol â rheoliadau rheoli gwastraff. Mae ein timau cynnal yn derbyn hyfforddiant trin a chario priodol, ac rydym yn defnyddio contractwyr gwastraff ardystiedig i atal unrhyw niwed amgylcheddol.



Thema 3:

# Rheoli Adnoddau

## Lleihau gwastraff a chyrchu'n gyfrifol

**Wrth i ni barhau i adeiladu cartrefi newydd a chynnal ein cartrefi presennol, rydym wedi ymrwymo i leihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau adeiladu a thrwsio. Rydym yn gwneud hyn trwy gyrchu defnyddiau adeiladau o ffynonellau cyfrifol a lleihau gwastraff.**

- Rydym yn blaenoriaethu defnyddiau sy'n bodloni safonau cynaliadwyedd, fel pren wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a chynnyrch ag ardystiad BES 6001 ar gyfer cyrchu cyfrifol. Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr sydd ag arferion cyrchu moesegol ac enw da am faterion amgylcheddol.

- Yn achos prosiectau adeiladu mawr, rydym yn cynnal asesiadau cylchred oes i werthuso effaith amgylcheddol y defnyddiau, gan ein galluogi i ddewis opsiynau ag ôl-troed carbon is sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd. Rydym yn adrodd ar yr asesiadau hyn yn ein Pecyn Cymorth Gwerth Cymru.

- Rydym yn ystyried ac yn mabwysiadu defnyddiau arloesol, effaith isel, fel concrit carbon isel, opsiynau ynysu cynaliadwy a phaent diwenwyn i leihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau adeiladu a thrwsio.



- Rydym wedi bod yn mabwysiadu arferion dylunio sy'n gwastraffu llai o defnyddiau, fel defnyddio dulliau torri manwl-gywir a defnyddiau safonol. Ar safleoedd adeiladu, rydym yn didoli'r gwastraff yn ddefnyddiau y gellir eu hailgylchu, fel metel, pren a choncrit, ac rydym yn sicrhau bod defnyddiau peryglus fel asbestos yn cael eu gwaredu'n ddiogel gan gontractwyr ardystiedig.

**19%**

Ar hyn o bryd, mae 19% o'r gwastraff o'n prosiectau adeiladu mawr yn cael ei ailgylchu, ond ein nod yw cynyddu'r ganran hon yn sylweddol fel rhan o'n hymdrechion cynaliadwyedd ehangach.

## Arbed Dŵr, Un Diferyn ar y Tro

Mae rheoli dŵr yn rhan arall o'n Strategaeth Cynaliadwyedd. Rydym yn gweithio i leihau'r defnydd o ddŵr ar draws ein heiddo ac annog ein preswylwyr i beidio â gwastraffu dŵr.

**Ein nod yw lleihau'r defnydd cyfartalog o ddŵr fesul aelwyd 15% dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn gwneud hyn trwy:**

- **Defnyddio gosodiadau sy'n effeithlon** o ran dŵr fel toiledau llif isel, tapiau a pennau cawodydd yn yr holl ddatblygiadau newydd ac yn ystod gwaith atgyweirio.
- **Cyflwyno systemau cynaeafu dŵr** glaw yn rhai prosiectau, sy'n casglu dŵr glaw ar gyfer defnydd heb fod yn yfadwy fel fflysio toiledau.
- **Rhoi systemau dŵr llwyd ar waith** mewn rhai datblygiadau, sy'n ailddefnyddio dŵr o sinciau a chawodydd at ddibenion eraill, fel fflysio toiledau.
- **Dylunio systemau draenio cynaliadwy (SuDS)** i reoli dŵr ffo, lleihau'r risg o lifogydd, ac ailgyflenwi dŵr daear.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â phreswylwyr i godi ymwybyddiaeth am gadwraeth dŵr, gan ddarparu adnoddau a gweithdai i'w helpu i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon.











# Cymdeithasol



"Rydym yn gweithredu ledled gogledd Cymru, gan ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion pobl ar gamau gwahanol yn eu bywydau, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed."

**Clare Budden, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp ClwydAlyn**



Thema 4:

## Fforddiadwyedd a Diogelwch

Mae ein polisi rhent fforddiadwy yn ystyried barn, incwm ac amgylchiadau personol ein preswylwyr. Rydym yn sicrhau bod ein rhenti yn parhau yn fforddiadwy, ar sail y data diweddaraf am aelwydydd incwm isel. Hefyd, rydym wedi cysoni rhenti ar draws yr holl siroedd rydym yn eu gwasanaethu, fel ein bod yn trin pawb yn deg.

**85%** Mae 85% o'n preswylwyr yn dweud bod eu rhent yn cynnig gwerth da am arian.

**1.3%**

Ar gyfartaledd, mae ein rhenti 1.3% yn rhatach na'r Lwfans Tai Lleol, gan eu gwneud yn fwy fforddiadwy.

Rydym yn gweithio ar draws ardaloedd chwe awdurdod lleol lle mae rheoliadau rhent yn gymwys. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn helpu i gyfrifo faint o Fudd-dal Tai (neu elfen tai y Credyd Cynhwysol) gall tenantiaid ei dderbyn, yn seiliedig ar renti'r farchnad breifat.

## Nifer y cartrefi yn ôl categori:

| Math o Dai | Nifer | % o'r Stoc |
|---|---|---|
| Anghenion cyffredinol | 4255 | 65.74% |
| Rhent canolradd | 203 | 3.14% |
| Rhent fforddiadwy | 107 | 1.65% |
| Tai â chymorth | 545 | 8.42% |
| Tai ar gyfer pobl hŷn | 514 | 7.94% |
| Perchnogaeth cartref cost isel | 718 | 11.10% |
| Cartrefi gofal | 130 | 2.01% |




Rydym yn gwybod y gall sicrwydd ym maes tai gael effaith fawr ar fywydau pobl, o ddod o hyd i waith sefydlog i adeiladu rhwydweithiau cymorth cryf. Dyna pam rydym yn cynnig contractau sicr i breswylwyr cartrefi Anghenion cyffredinol, Cysgodol, a Gofal Ychwanegol.

Symudodd Hayley a'i theulu i mewn ym mis Mawrth.

**"O, dw i mor hapus, fedra'i ddim rhoi'r peth mewn geiriau, mae'n 100% anhygoel, fedra'i dal ddim coelio'r peth. Dw i wedi symud o fflat 2 lofft lle roedd yn rhaid rhannu mynedfa, dim gardd, does dim cymhariaeth. Dw i wedi symud i dŷ hyfryd 3 llofft lle mae popeth wedi'i orffen a gardd wych - mae'n wirioneddol anhygoel.
Mae'n mynd i wneud cymaint o wahaniaeth i ni; mae gan y plant anghenion meddygol felly mae angen stafelloedd ar wahân arnyn nhw, ac mae popeth yma, rydyn ni'n agos at y teulu i gael cymorth a dw i mor ddiolchgar i chi".**






WARM WALES CYMRU GYNNES + ClwydAlyn

## Lleihau tlodi tanwydd

Rydym yn gweithio gyda'r arbenigwyr ynni Cymru Gynnes a Wise Group i roi cymorth i breswylwyr sy'n cael trafferth â biliau ynni uchel.

Roedd un preswyliwr yn ddiolchgar iawn i'r Tîm Hawliau Lles a Chyngor Ariannol am roi cymorth iddo gyda'i fudd-daliadau, gan olygu ei fod wedi gallu gwneud cais i fyw yn un o'n cynlluniau byw'n annibynnol.

**"Doeddwn i ddim yn meddwl fod posib cael cymaint o help. Mae ClwydAlyn wedi bod yn rhagorol dros y blynyddoedd, a fyddwn i ddim yn dymuno cael Landlord arall!"**

## Uchafbwyntiau:

**£25k → £100k**

Yn 2023/24, gwnaethom gynyddu ein Cronfa Breswylwyr o £25k i £100k y flwyddyn, ac mae cyfran o'r arian yn helpu preswylwyr â chostau nwy a thrydan.

Mae ein Tîm Hawliau Lles a'n Swyddogion Ymyrraeth Gynnar wedi helpu 296 o breswylwyr i sicrhau £1.2 miliwn o arbedion ariannol - cyfartaledd o £4,000 y pen.

- ☑ **296 o drigolion**
- ☑ **£1.2 miliwn**
- ☑ **£4,000**

**£600k +**

Yn dilyn ymdrechion sylweddol, gwnaethom sicrhau dros £600k o ostyngiadau ynni wedi'u hôl-ddyddio i breswylwyr nad oeddynt wedi cael gostyngiadau ynni gan adwerthwyr.

## Buddsoddi yn ein cartrefi presennol

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar uwchraddio ein cartrefi lleiaf ynni-effeithlon, gan wella amodau byw a fforddiadwyedd ynni. Ewch i Dudalen 4 i gael rhagor o wybodaeth.

## Ôl-osod ein cartrefi

Fel rhan o Raglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio Llywodraeth Cymru (ORP), gwnaethom fuddsoddi £1.7 miliwn i uwchraddio cartrefi. Roedd y gwaith yn cynnwys:

**47** **Paneli solar PV mewn 47 o gartrefi**

**73** **Batris PV mewn 73 o gartrefi**

**5** **Systemau gwresogi isgoch NexGen mewn 5 cartref**

**20** **Silindrau Mixergy mewn 20 cartref**

**60** **Systemau Synhwyro Ynni a'r Amgylchedd iOpt mewn 60 o gartrefi**

**17** **Uwchraddio goleuadau ynni isel mewn 17 o gartrefi**


**22** **Gwelliannau ynysiad mewn 22 o gartrefi**



ClwydAlyn yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd: yn hytrach na phympiau gwres neu foeleri nwy mae wedi dewis ateb gwresogi anghyffredin, sef papur wal is-goch.

**"Mae'n newid byd," ychwanegodd Mike. "Mae'n wych. Mae'n cynhesu'r tŷ mor gyflym, ac mae mor gynnes – mae'r mannau oer wedi diflannu'n llwyr."**

Rydym hefyd wedi diweddaru ein data EPC, gan leihau nifer y cartrefi sy'n perfformio'n wael. Rydym wedi gwella'r 49 eiddo a gafodd sgôr is na D EPC, i gyrraedd yr isafswm sef SAP 75 C.




**162 Cartrefi**

## Buddsoddi mewn cartrefi newydd

Mae 162 o'r cartrefi newydd a ddarparwyd gennym yn 2023/24 yn sgorio A o ran Effeithlonrwydd Ynni, ac maent wedi'u dylunio i ostwng biliau ynni'r preswylwyr.

---

Onnen + ClwydAlyn

## Onnen: ein menter ar y cyd

Mae Onnen, ein partneriaeth gyda Cartrefi Conwy, wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ymateb i her Sero Mawr. Gyda'n gilydd, rydym wedi cyflwyno mesurau ôl-osod gwyrdd, gan gynnwys:

**368** **368 o arolygon technegol**

**126** **162 o fesurau ynni effeithlon fel ynysiad waliau ceudod, paneli solar, batris, a phympiau gwres →**

**31** **Tynnu ynysiad diffygiol o 31 o gartrefi i wella effeithlonrwydd ynni.**








Thema 5:

## Diogelwch ac Ansawdd Adeiladau

Mae sicrhau bod ein preswylwyr yn ddiogel ac yn gysurus yn eu cartrefi yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn cymryd diogelwch o ddifrif, o gydymffurfio â rheoliadau i sicrhau bod cartrefi yn cael eu cynnal yn dda.

**99.8%** o gartrefi wedi cael archwiliadau diogelwch nwy.

**100%** o gartrefi wedi cael asesiadau risg tân.

**99.86%** o gartrefi wedi cael archwiliadau diogelwch trydan.

Mae ein holl gartrefi yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd Safon Ansawdd Tai Cymru 2 newydd yn cael ei gyflwyno yn 2034, ac rydym eisoes yn paratoi ac yn gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y newidiadau a gyflwynir ym mis Ebrill 2025.

## Tamprwydd, llwydni ac anwedd

Gall tamprwydd a llwydni fod yn bryder gwirioneddol, felly rydym wedi sicrhau bod ein tîm yn barod i helpu. Rydym wedi llunio cynllun sy'n cynnwys cysylltu â phreswylwyr yn uniongyrchol drwy arolygon a darparu adnoddau defnyddiol, fel fideos  a thaflenni sy'n rhoi cyngor ac yn esbonio sut i atal tamprwydd a gwella awyriad. Mae ein staff wedi derbyn hyfforddiant i ganfod problemau yn fuan, ac rydym wedi sicrhau bod ganddynt yr offer angenrheidiol i roi sylw i unrhyw faterion.

**Dolen yma ar gyfer fideo: https://fb.watch/uN1mTQYMQj/**

Thema 6:

# Llais y Preswyliwr

Mae gwrando ar ein preswylwyr yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae ein Strategaeth Cynnwys Preswylwyr yn sicrhau y gall preswylwyr rannu eu syniadau a'n helpu i siapio ein gwasanaethau mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Boed hynny drwy ein Pwyllgor Preswylwyr, Aelodau Preswylwyr o'r Bwrdd, #Dylanwadwch, neu grwpiau ffocws, gall preswylwyr ddylanwadu ar benderfyniadau a'n dal i gyfrif.

Rydym yn falch o gael dau breswyliwr ar ein Bwrdd, gan sicrhau bod eu lleisiau yn rhan o bob penderfyniad mawr rydym yn ei wneud. Mae gan ein Pwyllgor Preswylwyr, sy'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn, wyth aelod ac mae'n adolygu polisïau, cwynion a sut rydym yn perfformio. Mae ei argymhellion yn sicrhau ein bod bob amser yn gwella. Mae'r Panel Cwynion, cymysgedd o aelodau Pwyllgor a gwirfoddolwyr, yn gweithio gydag uwch swyddogion i adolygu cwynion a dysgu gwersi ganddynt.

## Cynnwys Preswylwyr a #Dylanwadwch

Mae ein rhaglen #Dylanwadwch yn cael ei harwain gan Swyddog Cynnwys Preswylwyr ac eleni gwelsom gynnydd o 13% yn yr aelodaeth, gan wneud cyfanswm o 167 o breswylwyr. Rydym wedi gweld sut mae cynnwys preswylwyr yn gwneud gwahaniaeth, ac rydym yn annog adborth ar bob cyfle. Mae'n ein helpu i wella gwasanaethau a rhoi sylw i unrhyw bryderon yn uniongyrchol.


EICH NEWYDDION

CYFARFOD

Aelod Newydd y Pwyllgor Preswylwyr

Rachel Masterson

**1. Pam oeddech chi eisiau ymuno â'r Pwyllgor Preswylwyr?**

Roeddwn eisiau bod ar Fwrdd Pwyllgor y Preswylwyr gan fy mod yn credu yng ngrym y gymuned a phwysigrwydd cael llais yn y broses o lunio'r amgylchedd lle rydym yn byw. Bydd bod yn rhan o'r bwrdd yn rhoi cyfle i mi gyfrannu at wella ein cymuned a rhoi sylw i unrhyw bryderon neu faterion sy'n poeni preswylwyr.

Mae cenhadaeth ClwydAlyn, 'gyda'n gilydd i drechu tlodi' yn cyd-fynd yn agos iawn â'm swydd, lle rydym yn cynnig cymorth yn y gymuned i amrywiaeth eang o bobl sy'n wynebu rhwystrau rhag gweithio, gan gynnwys pobl ag anabledd, cyflyrau iechyd, neu record troseddol, yn ogystal â phobl sydd wedi bod allan o waith am amser hir neu sydd heb weithio o'r blaen.

**2. Ydych chi wedi bod yn aelod o unrhyw Fwrdd neu Bwyllgor o'r blaen?**

Rwyf yn aelod o Fwrdd Uwch Dîm Arwain Maximus, sy'n meithrin perthynas gadarnhaol yn y gymuned leol i ehangu ein rhwydwaith a gwella ein heffaith. Un o'n strategaethau allweddol yw ymgysylltu â busnesau a mudiadau lleol, chwilio am gyfleoedd i gydweithio a chefnogi ein gilydd. Trwy adeiladu partneriaethau cryf gallwn gael gafael ar adnoddau ac arbenigedd i gael effaith barhaol ar y gymuned.

**3. Pa agweddau ar y rôl rydych chi'n eu mwynhau fwyaf?**

Fel aelod o'r bwrdd, un o'r pethau rwyf wir yn ei fwynhau yw'r cyfle i weld drosof fy hun yr heriau a'r prosiectau sy'n wynebu ClwydAlyn.

Rwyf yn cymryd rhan yn y broses benderfyniadau ac yn cyfrannu at siapio cyfeiriad ein sefydliad yn y dyfodol. Hefyd, mae bod yn aelod o'r bwrdd yn rhoi cyfle i mi weithio gydag unigolion dawnus eraill sy'n dod â'u safbwyntiau ac arbenigedd gwahanol i'r bwrdd, gan wella fy mhrofiad a'n gallu ar y cyd i oresgyn yr heriau hyn yn llwyddiannus.

**4. A wnaeth unrhyw beth eich synnu?**

Un agwedd a wnaeth fy synnu oedd lefel y craffu ariannol. Roeddwn yn rhyfeddu at y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â rheoli cyllid y sefydliad a sicrhau ei gynaliadwyedd yn y tymor hir. Cefais fy synnu ar yr ochr orau hefyd i weld sut roedd aelodau'r bwrdd yn cydweithio wrth wneud penderfyniadau, gan fod hyn yn golygu bod syniadau newydd yn cael eu cyflwyno.

**5. Fel preswyliwr, beth yw'r peth pwysicaf i chi?**

Fel preswyliwr ClwydAlyn, y peth pwysicaf yw cael amgylchedd byw diogel a saff sy'n hybu teimlad o gymuned a pherthyn. Hefyd, mae mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau o ansawdd sy'n gwella lles cyffredinol ac ansawdd bywyd yn bwysig iawn.

**6. Beth yw eich gobeithion a'ch uchelgais ar gyfer ClwydAlyn?**

Fy ngobeithion ar gyfer ClwydAlyn yw gweld y sefydliad yn dod yn flaenllaw wrth ddarparu datrysiadau tai fforddiadwy a gwasanaethau cymorth i bobl mewn angen. Rwyf hefyd am weld ClwydAlyn yn parhau i ehangu ar ei waith gyda chymunedau, ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl. Rwyf yn gobeithio y bydd ClwydAlyn yn blaenoriaethu cynaliadwyedd ac arloesedd yn ei arferion, gan sicrhau llwyddiant hirdymor a chryfder yn wyneb anghenion sy'n newid.

**7. A oes unrhyw gyngor y byddech yn ei rannu â rhywun sy'n ystyried ymuno â'r Pwyllgor Preswylwyr yn y dyfodol?**

Un darn o gyngor yr hoffwn ei rannu gyda rhywun sy'n ystyried ymuno â'r Pwyllgor Preswylwyr yn y dyfodol yw gwrandewch ar bryderon ac awgrymiadau eich cyd-breswylwyr. Bydd hyn yn helpu i feithrin teimlad o gynhwysedd ac yn sicrhau bod lleisiau pawb yn cael eu clywed.

Hefyd, mae'n bwysig cael meddwl agored a bod yn barod i gydweithio ag eraill er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion neu roi newidiadau cadarnhaol ar waith yn y gymuned. Mae'n brofiad dysgu gwych all arwain at dwf personol a gwell dealltwriaeth o safbwyntiau gwahanol.

4

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n preswylwyr i wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn brysur gyda...

**163** Dylanwadwyr

**7** Arolyngon

**436** Arolygon wedi'u cwblhau

**12** Sesiynau Gofyn i ni unrhyw beth











## Bodlonrwydd Preswylwyr

Mae bodlonrwydd ein preswylwyr yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn falch o rannu canlyniadau Arolygon STAR 2023/24 sy'n dangos bod 86% o'n preswylwyr yn fodlon â'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Mae hyn yn welliant o 1% ers y llynedd. Mae preswylwyr hefyd yn credu bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian ac maent yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi. Mae'r canlyniadau hyn yn arwyddocaol iawn, o ystyried yr heriau mae pawb yn eu hwynebu o ran costau byw.

## Adborth preswylwyr a gwelliannau i wasanaethau – enghreifftiau

Pan fydd preswylwyr yn codi pryderon, rydym bob amser yn gweithredu. Trwy ein menter "Y Pethau Sylfaenol", rydym wedi gallu canolbwyntio ar fireinio ein gwasanaethau, gan gynnwys cyflymu gwaith trwsio a gwella prosesau apwyntiadau. Rydym wedi cynyddu nifer ein staff, ychwanegu prentisiaid, a hyd yn oed wedi cyflwyno rhaglen hunan-drwsio lle gall preswylwyr gwblhau mân dasgau eu hunain. Y llynedd, cafodd 147 o'r tasgau hyn eu cwblhau gan breswylwyr, gan arbed £18k i ClwydAlyn a derbyniodd pob preswyliwr daleb £20 i ddiolch am hyn.


DEAR SIR/MADAM

I WANT TO THANK YOU FOR MY NEW KITCHEN.

THE WORKMAN WHO CAME WORKED HARD. NOTHING WAS TO MUCH TROUBLE FOR THEM.

THEY WERE POLITE AND RESPECTFUL TO ME.

CRAIG WHO WAS INCHARGE MADE SURE EVERY THING WAS RIGHT FOR ME. HE APPEARED TO HAVE A GOOD RAPPORT WITH THE MEN.

YOURS SINCERELY

Rydym wedi gwella tryloywder ein taliadau gwasanaeth drwy gynnwys preswylwyr yn y broses adolygu, gan arwain at ostyngiad o 10% yn y taliadau gwasanaeth ar gyfer 2024/25, gan eu gwneud yn fwy cyson â rhenti fforddiadwy.

ClwydAlyn | Arolygon Boddhad Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)

## Canlyniadau boddhad - 2023/24

**76% Yn gwrando ar safbwyntiau**
Mae 76% o drigolion yn fodlon bod ClwydAlyn yn gwrando ar eu barn ac yn gweithredu arnynt.

**86% Ansawdd eich cartref**
Mae 86% o drigolion yn fodlon ag ansawdd eu cartref.

**70% Proses gwneud penderfyniadau**
Mae 70% o drigolion yn fodlon ar gyfleoedd cyfranogiad ClwydAlyn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**91% Diogel a sicr**
Mae 91% o drigolion yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

**68% Sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli**
Mae 68% o drigolion yn fodlon bod ClwydAlyn yn rhoi llais iddynt yn y modd y caiff gwasanaethau eu rheoli.

**78% Atgyweiriadau - Boddhad cyffredinol**
Mae 78% o drigolion yn fodlon ar ein gwasanaeth cynnal a chadw ac atgyweirio.

**79% Yn ymddiried ClwydAlyn**
Dywedodd 79% o drigolion eu bod yn ymddiried yn ClwydAlyn.

**83% Cymdogaeth**
Mae 83% o drigolion yn fodlon bod eu cymdogaeth yn lle da i fyw.

**85% Taliadau rhent**
Mae 85% o drigolion yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian.

**71% Ymddygiad gwrthgymdeithasol**
Mae 71% o drigolion yn hapus gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir.

**71% Boddhad cyffredinol**
Mae 71% yn fodlon bod eu taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.



## Ein Haddewid

Rydym wedi gweithio gyda'n gwirfoddolwyr #Dylanwadwch a'r Pwyllgor Preswylwyr i lunio "Ein Haddewid"– siarter preswylwyr sy'n amlinellu yr hyn gall preswylwyr ei ddisgwyl gennym. Mae'r siarter yn ein helpu i sicrhau ein bod yn dryloyw ac yn atebol, a'r preswylwyr eu hunain sydd wedi dewis y meysydd allweddol maent yn dymuno i ni eu mesur, fel y gallwn adrodd yn ôl yn rheolaidd ar ein cynnydd.

## Cwynion

Yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Cafodd 11 o gwynion eu hystyried gan yr Ombwdsmon
- Penderfynwyd bod DIM ohonynt oherwydd camweinyddu
- Cafodd DIM o'r achosion eu cadarnhau gan yr Ombwdsmon
- Gwnaed 1 mân argymhelliad

Er mwyn parhau i wella, rydym yn cynnal cyfarfodydd wythnosol rhwng Swyddogion Tai a Rheolwyr i drafod achosion cymhleth, ac mae ein Tîm Cwynion yn cyfarfod bob pythefnos i adolygu'r gwersi a ddysgwyd. Maent hefyd yn ail edrych ar y sefyllfa chwe mis ar ôl datrys cwyn i sicrhau bod unrhyw newidiadau cadarnhaol yn rhai parhaol.

Rydym hefyd wedi ei gwneud yn haws i breswylwyr roi adborth drwy ein gwefan newydd, lle mae tudalen benodol ar gyfer cwynion a chanmoliaeth.



Thema 7:

# Cymorth i Breswylwyr

## Rydym yn yr 8fed safle o blith 126 o landlordiaid ar draws y DU o ran bodlonrwydd cymdeithasol.

Rydym yn cynnig cymorth ym maes tai ar lefel gymunedol. Mae ein Timau Tai yn gweithio mewn ardaloedd bach, lleol, felly mae pob Swyddog yn gyfrifol am tua 250 eiddo. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i'r Swyddogion ddod i adnabod y preswylwyr yn bersonol, deall eu hanghenion a darparu'r math cywir o gymorth pan fo'r angen.



Rydym yn pennu ein rhenti ar sail model Rhent Byw Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n helpu i sicrhau bod fforddiadwyedd yn ystyriaeth wrth ddod i benderfyniadau ynglŷn â rhenti. Oherwydd hyn, mae 85% o'n preswylwyr yn fodlon â'r gwerth am arian mae eu rhent yn ei gynnig - 2% yn uwch na chyfartaledd y DU!

---

## Cronfa Preswylwyr

Rydym yn gwybod y gall pethau fod yn anodd, felly mae gennym Gronfa Preswylwyr bwrpasol i helpu pobl sy'n wynebu problemau ariannol. Rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, derbyniodd 89 o breswylwyr gyfanswm o £19,310. Ac yn 2023/24, gwnaethom gynyddu'r gronfa o £25k i £100k, gan roi cyfanswm o £52,652 i 149 o breswylwyr.

**Rydym wedi helpu 149 o drigolion gyda chyfanswm o:**

**£52,652**

**Dyma rai o'r ffyrdd rydym wedi gallu helpu:**

- **Darparu bwyd mewn argyfwng**
- **Cymorth gyda biliau nwy a thrydan**



- **Helpu i reoli plâu**
- **Cynnig dodrefn hanfodol**



- **Cynorthwyo preswylwyr gyda'u hôl-ddyledion rhent**
- **Clirio eiddo**



- **Darparu yswiriant cynnwys**

## Enillion ariannol yn sgil y cymorth

Mae ein Tîm Hawliau Lles a'n Swyddogion Ymyrraeth Gynnar wedi helpu 296 o breswylwyr i wneud enillion ariannol gwerth £1.2 miliwn, sef cyfartaledd o £4,000 fesul preswyliwr. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda cheisiadau taliad annibyniaeth personol (PIP), cyngor ar gyllidebu, asesiadau gallu i weithio, gostyngiadau, ac atgyfeiriadau cymorth dyledion arbenigol.




## Cymorth Lles

Mae rhoi cymorth lles i'n preswylwyr yn allweddol i gynnal tenantiaethau sefydlog. Yn 2023/24, derbyniodd 425 o breswylwyr gymorth i wynebu gwahanol heriau:

| | |
|---|---|
| **95** | roedd 95 yn gysylltiedig â Thlodi Bwyd |
| **24** | roedd 24 yn gysylltiedig â Thlodi Tanwydd |
| **93** | roedd 93 yn gysylltiedig â chyflwr yr eiddo |
| **101** | roedd 101 yn gysylltiedig ag Iechyd a Lles preswylwyr |
| **3** | roedd 3 yn gysylltiedig â Chyflogaeth ac Addysg |
| **109** | cafodd 109 eu datrys yn uniongyrchol gan Swyddog Tai |

## Dechrau newydd yn Nhŷ Norfolk

**Dechreuodd taith Preswyliwr A yn Nhŷ Norfolk yn 2019 ar ôl iddo dreulio blwyddyn yn y carchar oherwydd problemau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a thrawma heb ei ddatrys. Er gwaethaf yr heriau cychwynnol, cafodd loches a chymorth yn Nhŷ Norfolk.**

**Yn raddol, rhoddodd sylw i'w broblemau iechyd meddwl, derbyn cwnsela, a llwyddo i oresgyn ei gaethiwed. Gydag arweiniad staff, derbyniodd gymorth gan wasanaethau meddygol ac iechyd meddwl, gan arwain at ddiagnosis o ADHD, a gwnaeth gynnydd sylweddol wrth reoli ei gyflyrau.**







**Dechreuodd Preswyliwr A chwarae bowls, gan ddod o hyd i sefydlogrwydd a phwrpas mewn bywyd, gan fyw'n sobr a chymryd rhan mewn twrnameintiau. Ar ôl goresgyn rhai problemau, gyda chymorth y staff daeth o hyd i fflat ac mae'n dal i dderbyn help, gan ddangos pa mor bwysig yw gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fodloni anghenion cymhleth parhaus.**

## Cyflawniadau Allweddol:

**Gwaethom ennill Safon Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru am ein gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig.**

National Quality Service Standards

**Rydym wedi integreiddio arferion sy'n ystyriol o drawma i'n holl wasanaethau.**

**Gwnaethom ennill sawl tendr i ehangu gwasanaethau byw â chymorth ledled gogledd Cymru.**

**Arweiniodd ClwydAlyn ymateb gogledd Cymru i'r argyfwng yn Wcráin, gan helpu dros 100 o bobl i ddod o hyd i gartrefi parhaol yng Nghymru.**





**Rydym yn agor Tŷ Nos, cyfleuster newydd yn Wrecsam a fydd yn cefnogi 20 o unigolion digartref.**

### Croesawu preswylwyr newydd

Eleni, rydym wedi croesawu 687 o breswylwyr newydd i'w cartrefi:

**84** i Gartrefi Fforddiadwy

**108** i Ofal Ychwanegol

**363** i dai Anghenion Cyffredinol

**34** i dai Grŵp

**98** i gartrefi Byw â Chymorth

### Geiriau o gymeradwyaeth

Hafan Gwydir
**"Os oes angen gwneud rhywbeth, yna rydyn ni'n ffonio'r Brif Swyddfa ac mae ein Rheolwr yn dda iawn a bob amser ar gael i drafod unrhywbeth."**

Preswyliwr Anghenion Cyffredinol – Ynys Môn
**"Yn fy marn i, dyma un o'r darparwyr tai gorau rwyf wedi dod ar eu traws."**

Anghenion Cyffredinol - Wrecsam
**"Mae'n berffaith ac maen nhw'n anhygoel."**

Anghenion Cyffredinol – Y Rhyl
**"Dim cwynion am ddim byd. Wedi bod yma am 9 mlynedd ac yn hapus iawn."**

Anghenion Cyffredinol, Llysfaen
**"Dw i ddim yn meddwl y gallan nhw wella dim, dw i'n denant hapus iawn.
Dw i'n anabl ac maen nhw wedi addasu fy nghartref er mwyn i mi fyw'n annibynnol."**

Gofal Ychwanegol - Wrecsam
**"Mae fy mam yn hapus iawn, mae hi'n difaru na wnaeth hi symud yma flynyddoedd yn ôl."**




## Cymorth Nadolig

Er mwyn helpu ein preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw dros y Nadolig, darparodd ClwydAlyn £3,800 mewn talebau bwyd i 128 o aelwydydd a rhoddodd anrhegion i 74 o breswylwyr a oedd wedi'u hynysu yn gymdeithasol neu'n cael trafferthion ariannol, yn enwedig teuluoedd gyda phlant.

## Gwasanaethau cymorth

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau i gefnogi pobl ifanc, teuluoedd, mamau a babanod, unigolion ag anghenion iechyd cymhleth a phobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

**Mae ein gwasanaethau yn cynnwys:**

- Triniaeth ar gyfer materion yn ymwneud ag alcohol, cyffuriau, ac iechyd
- Cymorth a chyngor ar fudd-daliadau
- Sgiliau byw'n annibynnol fel cyllidebu a choginio
- Cymorth lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys ymdopi mewn argyfwng
- Cymorth i ailgysylltu â theulu a ffrindiau, neu greu rhwydweithiau cymdeithasol newydd
- Cymorth gyda chyfleoedd addysg, hyfforddiant, a chyflogaeth




## Dod â saith mlynedd o ddigartrefedd i ben yn Nhŷ Golau

Mae ClwydAlyn yn adnabod Preswyliwr B ers saith mlynedd gan ei fod yn ddigartref o bryd i'w gilydd. Yn ystod y pandemig, gofynnodd am ein gwasanaethau yn Nhŷ Golau. I'w gadw'n brysur a sefydlu trefn ddyddiol, bu Preswyliwr B yn helpu staff gyda gwaith glanhau. Er mwyn diolch iddo, talodd y staff am danysgrifiad misol i'r gampfa i'w helpu i sefydlu arferion newydd.

Cynigiodd contractwr ar un o safleoedd datblygu Tai ClwydAlyn leoliad gwaith rhan amser i Breswyliwr B. Mae Preswyliwr B wedi gwneud cynnydd da yn ei rôl rhan amser ac wedi derbyn adborth cadarnhaol gan y contractwr. Mae bellach yn gobeithio cynyddu ei oriau i weithio'n llawn amser yn y dyfodol a symud i lety annibynnol.

Thema 8:


# Creu Lleoedd

Ein holl bwrpas yw creu lleoedd lle gall pobl wirioneddol ffynnu. Dyna pam ein bod yn falch o ddilyn Siarter Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a chysylltu cymunedau ym mhob prosiect rydym yn ymwneud ag ef.

## Penrhos, Gwynedd

Rydym wedi cael caniatâd cynllunio i ddatblygu 107 o gartrefi am oes, carbon isel, ar safle 20 erw ym Mhenrhos, Gwynedd, gyda'r nod o dorri'r tir yn yr hydref 2024. Mae'r safle hwn, sydd â hanes diddorol fel cyn-ganolfan yr awyrlu i awyrenwyr, milwyr a morwyr Pwylaidd, wedi cael ei ddefnyddio at sawl diben dros y blynyddoedd, gan gynnwys cartref gofal. Mae hi bellach yn amser am ddechrau newydd, ac rydym yn trawsnewid y safle yn gymuned fywiog, tebyg i bentref. Rydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r dyluniad, gan sicrhau ein bod yn parchu hanes y safle tra'n creu lle modern a bywiog i bobl fyw.





**Dyma rai o'r uchafbwyntiau:**

- Cadw'r eglwys ganolog bresennol yn ganolbwynt
- Ychwanegu llwybrau drwy'r coetir, rhandiroedd ac ardaloedd hamdden
- Creu cyfleusterau cymunedol y gall yr holl breswylwyr eu mwynhau

Rydym hefyd yn neilltuo dros ddwy erw ar gyfer cyfleuster nyrsio a gofal newydd, a fydd yn darparu gwasanaethau y mae dirfawr eu hangen yn ogystal â swyddi lleol newydd, gyda rhai aelodau staff yn byw ar y safle. Nod y datblygiad yw adeiladu cymuned ffyniannus a fydd yn gwasanaethau cymunedau'r dyfodol.





Rydym wedi bod yn brysur yn darparu prosiectau sy'n rhoi pwyslais ar gynaliadwyedd a chreu lleoedd. Rydym yn canolbwyntio ar adeiladu cartrefi sy'n cysylltu ag amwynderau lleol ac yn cynnig dewisiadau teithio llesol, gan ei gwneud yn haws i breswylwyr fyw'n dda heb orfod dibynnu ar geir. Mae llawer o'n datblygiadau hefyd yn agos at ysgolion, sy'n fantais fawr i deuluoedd.

**Dyma rai o'n prif brosiectau:**

- **Pentraeth, Ynys Môn:** Rydym wedi darparu 23 o gartrefi, gan gynnwys 10 ar gyfer y cyngor lleol ac 13 ar gyfer ClwydAlyn, gan ychwanegu perllan erw o faint a man agored i'r gymuned eu mwynhau.
- **Y Fali, Ynys Môn:** Dyluniwyd y datblygiad hwn o 54 cartref gan roi sylw i natur, ac mae'n cynnwys ardaloedd mawr i warchod a chynnal rhywogaethau o fadfallod lleol.
- **Adfywio'r Rhyl:** Yn y Rhyl, rydym yn trawsnewid ardal flêr gan adeiladu 13 o gartrefi ynni-effeithlon yn lle 30 o hen fflatiau. Mae'r cartrefi newydd hyn yn cynnwys gerddi yn y blaen a'r cefn, parcio oddi ar y stryd, a swyddfeydd yn y cartref –gwych ar gyfer bywyd modern.





Mae ein holl brosiectau yn defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy. Er enghraifft, rydym yn defnyddio pyllau a thraethbantau i reoli dŵr a chynyddu bioamrywiaeth. Mae gweithio gyda chontractwyr o Gymru hefyd yn bwysig iawn i ni, er mwyn cefnogi swyddi a'r economi leol. Roedd 100% o'r gweithlu a'r is-gontractwyr ar ein prosiectau yn Ynys Môn yn lleol.

## Ysgol Bryn Deva, Cei Connah

Yn 2023, gwnaethom ymuno ag Eber Enterprise i roi hwb mawr i Ysgol Bryn Deva yng Nghei Connah. Cafodd y lloriau mewn dwy ystafell synhwyraidd eu diweddaru ac adeiladwyd pergola hardd yn y cwrt canolog er mwyn i'r plant fwynhau dysgu yn yr awyr agored ar hyd y flwyddyn. Mae astudiaethau yn dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn meithrin hyder, yn gwella sgiliau cymdeithasol ac yn helpu plant i ddatblygu'n gorfforol ac yn feddyliol – felly roedd hwn yn brosiect pwysig iawn i'r ysgol.

Roeddem yn ffodus i dderbyn cyfraniadau hael gan ein cyflenwyr i gwblhau'r prosiect, gan gynnwys pren gan Travis Perkins, goleuadau gan CEF Electrical a llawer mwy. Cyfrannwyd gwerth £6,078 o ddefnyddiau a llafur.

**Dyma oedd gan Joanne, Rheolwr Busnes Ysgol Bryn Deva i'w ddweud:**

"Mae'r trawsnewidiad yn anhygoel! Gall plant Blwyddyn 1 a 2 ddefnyddio'r ardal hon drwy'r flwyddyn rwan, ac mae wedi cael effaith mor gadarnhaol ar eu haddysg. Maen nhw wrth eu bodd yn chwarae yn y tywod a'r dŵr ar foreau rhewllyd – mae'n wych gweld eu hwynebau yn disgleirio ac yn llawn rhyfeddod."







**Cyn...**



**Wedi...**







## Carchar y Berwyn, Wrecsam

Rydym wedi gweld twf anhygoel o ran y niferoedd sy'n cymryd rhan yn ein prosiect gyda Charchar y Berwyn yn Wrecsam. Gan ddechrau gydag 20 o wirfoddolwyr, mae'r nifer wedi mwy na dyblu i 42 wrth i ragor o bobl gymryd rhan. Gyda'i gilydd, maent wedi cynhyrchu:

**3,292** **o baneli byw modiwlar**

**2,738** **o baneli ffensys →**

**4** **o setiau drysau mewnol**

**51** **o siediau ar gyfer Y Mart, Y Fali**

**100** **o gatiau**

**51** **o flychau adar →**

Mae'r gweithdy hwn nid yn unig yn cynnig hyfforddiant sgiliau hanfodol mae hefyd yn gwella hyder y cyfranogwyr a'u rhagolygon gwaith yn y dyfodol.





## Bodlonrwydd preswylwyr ein cartrefi newydd

Mae barn ein preswylwr am eu cartrefi newydd yn bwysig iawn i ni, felly rydym yn cysylltu â nhw chwe wythnos ar ôl trosglwyddo'r cartrefi iddynt, a naw mis yn ddiweddarach i sicrhau eu bod yn hapus.

**Dyma ychydig o adborth o ddau o'n datblygiadau:**

- **Coleg Menai, Pentraeth a Hen Ysgol y Bont (arolwg 6 wythnos):** dywedodd 100% o'r preswylwyr eu bod yn gallu cadw eu cartref yn gynnes yn y gaeaf, ac roedd 84% yn argymell cartref gan ClwydAlyn yn fawr iawn.
- **Hen Ysgol y Bont a Glasdir (arolwg 9 mis):** dywedodd 57% o'r preswylwyr fod eu hiechyd corfforol a meddyliol wedi gwella, ac roedd 70% yn fodlon iawn â'u cartref newydd.





Dyma rai o'r newidiadau mwyaf a phwysicaf i'r preswylwyr:

- Teimlo'n fwy diogel
- Popeth - saff, diogel, mae'n hardd yma
- Cartrefi hyfryd
- Mwy o le i'r plant, newid swyddi, hapus yn byw yma, caru'r tŷ

Annest Roberts

**"Mae'n rhyddhad mawr cael symud i mewn yma a dweud y gwir. Dw i'n fam i ddau o blant - mae'r hynaf yn 2 oed, ac mae gen i fabi 9 mis oed. Bydd byw yma yn rhoi cyfle iddyn nhw gael llofft bob un. Cyn i ni ddod yma, roedden ni'n aros yn ystafell fyw fy rhieni ac roeddwn i'n gorfod cysgu ar y soffa. Mae gan bawb ddigon o le yma, ac mae'r ysgol i fyny'r lôn felly mae hyd yn oed yn fwy cyfleus. Dw i'n edrych ymlaen i weld faint o arian fydda i'n ei arbed ar filiau mewn cartref ynni-effeithlon, ac wrth i mi gael trefn ar bethau gallaf chwilio am waith rhan amser yn yr ardal."**



FEDRA'i
Law yn llaw at iechyd meddwl

## FEDRA'i: cymorth iechyd meddwl

Rydym yn falch o gynnal hwb cymunedol FEDRA'i yn y Rhyl, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae FEDRA'i yn cynnig lle croesawgar a diogel i unrhyw un sy'n chwilio am gymorth iechyd meddwl neu les. Mae'r hwb ar agor saith diwrnod yr wythnos, ac yn cynnig cefnogaeth emosiynol, cyngor, ac atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r hwb wedi rhoi cymorth i 1,403 o bobl, ac rydym wedi gweld yr effaith anhygoel mae hyn yn ei chael ar fywydau unigolion.

**Esboniodd Cleient A sut mae FEDRA'i wedi newid ei fywyd:**

"Ar ôl teimlo fy mod wedi rhoi'r gorau i fywyd, nid gormodiaith yw dweud na fyddwn i yma heddiw petawn i ddim wedi cysylltu â nhw. Mae FEDRA'i wedi fy helpu gyda fy iechyd a lles meddyliol ar ôl i mi gael sawl profedigaeth mewn cyfnod byr. Mae'r bobl yn FEDRA'i yn griw gwych, maen nhw wedi cynnig pob math o help i mi, er nad oeddwn yn teimlo fy mod yn ei haeddu, na bod ei angen arnaf."

**747**

Mae'r hwb wedi cefnogi dros 747 o bobl

**88%**

Mae 88% o gleientiaid wedi dweud eu bod yn teimlo'n well am eu hiechyd meddwl a'u lles

**65%**

Nid yw 65% o bobl bellach yn teimlo'n ynysig

**1874**

Cafwyd 1874 o ymyriadau

**1,403**

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r hwb wedi cefnogi 1,403 o bobl

**Dywedodd Cleient B, a oedd wedi colli ei gymar a'i fab:**

"Roeddwn i'n byw ar fy mhen fy hun ac yn cael trafferth cysylltu â phobl a dod o hyd i gymorth gan nad oeddwn yn teimlo fy mod yn ei haeddu. Fe wnaeth FEDRA'i gynnig cymorth emosiynol a hefyd fy nghyfeirio at wasanaeth profedigaethau. Fe wnes i weithio gyda'r staff i roi dulliau ymdopi ar waith ac rwyf bellach nôl yn gweithio, yn cymryd rhan mewn grwpiau gweithgareddau, a hyd yn oed wedi dechrau paentio unwaith eto a mwynhau bywyd."

# Llywodraethu

Rydym yn credu bod llywodraethu da yn allweddol er mwyn cyflawni ein cenhadaeth i drechu tlodi. Dyma sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn i'n sefydliad a'n preswylwyr.

Thema 9:

## Strwythur a Llywodraethu

Llywodraeth Cymru sy'n ein rheoleiddio a bob blwyddyn rydym yn cyflwyno Cynllun Hunanwerthusiad a Gwelliant Parhaus blynyddol. Mae hyn yn dangos sut rydym yn cyrraedd y Safonau Perfformiad sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith Rheoleiddio.

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Budd Cymunedol Elusennol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymunedol 2014, sy'n golygu ein bod yn sefydliad nid-er-elw. Rydym hefyd yn aelod o Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) ac yn dilyn ei God Llywodraethu.



**Cawsom sgôr 'Gwyrdd' – y sgôr uchaf – am reolaeth ariannol a llywodraethu.**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Community Housing Cymru

### Rheoli risg

Er mwyn sicrhau bod y busnes yn ffynnu, rydym yn cynnal adolygiad blynyddol o'n risgiau Strategol a Gweithredol. Rydym yn dilyn model amddiffyn 3 rheng i reoli'r risgiau hyn, ac mae ein Bwrdd yn gwirio'n rheolaidd bod popeth ar y trywydd iawn. Er na allwn reoli pob risg (fel y pwysau ariannol sy'n effeithio ar lawer o bobl heddiw), mae ein Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn gweithio mewn ffordd ragweithiol i wneud gwahaniaeth. Maent yn cysylltu â chyrff masnach, fel CCC, i gyfrannu at bolisïau, rheoleiddio a deddfwriaeth. Rydym wedi dosbarthu risgiau yn rhai Strategol neu Weithredol, ac maent bob amser yn cael eu monitro'n ofalus gan ein Bwrdd a'n Pwyllgor Sicrwydd. Mae risgiau strategol yn cynnwys materion amgylcheddol (fel datgarboneiddio), llywodraethu a'n Gwerthoedd Cymdeithasol, Blaenoriaethau Tlodi a Diwylliant.

Newyddion da! Mae'r holl ganfyddiadau rheoleiddio wedi bod yn ffafriol yn ystod y 12 mis diwethaf.




**Tair llinell o amddiffyniad**





Thema 10:

# Y Bwrdd

## Amrywiaeth a chynrychiolaeth

Yn ein barn ni, dylai'r Bwrdd adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Diolch i rai penodiadau diweddar, mae ein Bwrdd yn fwy amrywiol ac yn dod â chyfoeth o brofiad i'r trafodaethau.

Rydym hefyd yn cynnal gwerthusiadau blynyddol i helpu aelodau'r Bwrdd i asesu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r gwerthusiadau hyn yn llywio eu datblygiad personol, ac mae dadansoddiad bwlch sgiliau ac amrywiaeth yn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer unrhyw swyddi gwag ar y Bwrdd yn y dyfodol.

**62%**

**mae 62% o'n Bwrdd yn fenywod**

**50%**

**mae 50% o Gadeiryddion ein Bwrdd a Phwyllgorau yn fenywod**

**15%**

**mae gan 15% o aelodau ein Bwrdd anabledd**

**8%**

**mae 8% o aelodau ein Bwrdd o gefndir lleiafrifol ethnig**

**8%**

**mae 8% o aelodau ein Bwrdd yn LHDTC+**

**38%**

**mae 38% o aelodau ein Bwrdd naill ai'n siarad Cymraeg yn rhugl neu'n gallu cynnal sgwrs yn y Gymraeg**

**54%**

**mae 54% o'n haelodau yn ystyried eu hunain yn Gymry**

**56**

**cyfartaledd oedran aelodau ein Bwrdd yw 56**

## Trosiant y Bwrdd a rheolwyr

**Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys saith aelod heb unrhyw drosiant mewn blwyddyn.** **7**

**5** **Mae pum aelod wedi gadael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl bwrw eu tymor o 9 mlynedd.**

**84.62%** **Mae 84.62% o'r Bwrdd yn gyfarwyddwyr annibynnol anweithredol.**

**Mae gan y Bwrdd 13 aelod, sef dau aelod gweithredol, dau aelod sy'n breswylwyr a naw aelod anweithredol annibynnol.** **13**

**Y trosiant y llynedd oedd 38.46%**

---

## Pwyllgor Archwilio

**Mae dau aelod o'r Bwrdd sydd â phrofiad ariannol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio:**



### Nia:

Ymunodd â'r Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd yn 2019. Dechreuodd Nia ei gyrfa ym maes archwilio gyda PWC ac mae'n Gymrawd Cymdeithas y Cyfrifwyr Siartredig. Mae hi wedi gweithio ym maes cyllid yn y sectorau preifat a nid-er-elw ac ar hyn o bryd hi yw Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Muir Housing yng Nghaer.



### Rob:

Ymunodd yn 2019 hefyd. Mae Rob yn Gymrawd Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheolaeth a Phrif Swyddog Cyllid Caudwell Children. Mae ganddo dros 25 mlynedd o brofiad mewn swyddi cyllid lefel uwch ar draws sectorau niferus, gan gynnwys nid-er-elw.

- Rydym wedi ailbenodi ein partner archwilio allanol, ein harchwilydd ers chwe blynedd, o dan arweiniad arweinydd archwilio newydd.
- Gwnaethom lunio cynllun olyniaeth manwl y llynedd i sicrhau trosglwyddiad llyfn o ran rolau arweinyddiaeth.
- Cynhaliwyd ein hadolygiad annibynnol diwethaf yn 2022, a chynhelir y nesaf ym mis Rhagfyr 2024.

## Rheoli gwrthdaro buddiannau

Rydym yn credu mewn bod yn agored ac yn dryloyw. Dyna pam mae'n rhaid i aelodau ein Bwrdd, Pwyllgorau, a'n staff ddatgelu pob achos o wrthdaro buddiannau (posibl neu wirioneddol). Os oes unrhyw wrthdaro, ni fyddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau ar y mater.
Cyn pob cyfarfod, mae'r Cadeirydd yn gofyn am unrhyw ddatganiadau newydd, gan sicrhau ein bod yn gwneud popeth yn briodol ac yn dilyn y rheolau.




## Cynnwys preswylwyr

Fel rhan o'n Strategaeth Cynnwys Preswylwyr (gweler tudalen 13 am ragor o wybodaeth), rydym wedi ymrwymo i roi lle canolog i breswylwyr yn ein gwaith. Mae'r strategaeth yn cynnig ffyrdd hyblyg i breswylwyr gymryd rhan, beth bynnag yw eu hamserlenni. Mae'r adborth rydym wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn werthfawr iawn – derbyniwyd 436 ymateb mewn saith arolwg. Dyma gipolwg ar y ffordd mae preswylwyr wedi dylanwadu ar rai o'n prosiectau mawr:

- **Adolygiad Rhent Fforddiadwy:** Roedd preswylwyr yn rhan o'r grŵp a fu'n adolygu'r Polisi Rhent a gwneud argymhellion i'r Bwrdd.
- **Gwefan Newydd:** Cafodd preswylwyr gyfle i roi eu barn am bob cam o'r broses pan lansiwyd ein gwefan newydd ym mis Medi 2023.







- **Porth Preswylwyr – 'Fy ClwydAlyn':** Dechreuodd cam dau ym mis Ebrill 2023, a gwnaethom gyflwyno sawl newid ar sail adborth preswylwyr, o ychwanegu tudalennau newydd i gynnwys newyddion a gwybodaeth gymunedol.
- **Cynnal Tiroedd:** Gwnaethom gysylltu â phob preswyliwr sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn drwy negeseuon e-bost a llythyrau a chynnal sesiynau galw heibio ym mhob sir. Bydd yr adborth yn helpu i siapio'r tendr newydd ac ailgynllunio'r gwasanaeth.

## Lais y Preswyliwr

Rydym yn gwrando ar lais y preswyliwr ar y lefel uchaf. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr yn aelodau o'r Bwrdd, gan roi adborth uniongyrchol i ni am y ffordd rydym yn ymgysylltu â phreswylwyr, ein gwasanaethau a'n perfformiad.

- **Preswylwyr sy'n Gwirfoddoli:** Bob mis, mae'r preswylwyr hyn yn gwirfoddoli i wneud 200 o alwadau bodlonrwydd yn gysylltiedig â gwaith cynnal.
- Ymuno â'r Pwyllgor: Rydym yn annog preswylwyr i gymryd rhan ac yn estyn gwahoddiadau rheolaidd yn ein cylchlythyrau.
- Holi a Sgwrsio: Sesiynau galw heibio yn y gymuned sy'n rhoi cyfle i breswylwyr sgwrsio â staff.





- Pwyllgor Preswylwyr: Mae'r aelodau yn rhan o'r broses o recriwtio uwch rolau'r bwrdd, rolau staff a swyddi allweddol eraill.
- Cwestiynau Gwerth Cymdeithasol: Bob blwyddyn, rydym yn gofyn i 1,100 o breswylwyr ateb pump o gwestiynau gwerth cymdeithasol er mwyn helpu i dargedu adnoddau a siapio ein cynllun corfforaethol 5-mlynedd nesaf.
- Holiadur Sicrwydd Ansawdd: Mae adborth yn cael ei rannu â'r preswylwyr a'u teuluoedd, gan ddangos y camau rydym wedi'u cymryd.
- #Dylanwadwch: Mae gennym grŵp mwy amrywiol o breswylwyr yn cymryd rhan mewn meysydd sydd o ddiddordeb iddynt.
- Craffu gan Breswylwyr: Mae preswylwyr yn helpu gyda phenderfyniadau allweddol, gan sicrhau bod eu barn yn siapio gwasanaethau.

## Ymgysylltu â'n gweithwyr

Mae gennym Fforwm Staff sy'n cynrychioli barn y staff am amrywiaeth o faterion. Mae'n rhan o'n Pwyllgor Pobl, sy'n cynnwys Aelodau o'r Bwrdd ac aelodau o'r Pwyllgor Annibynnol. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm hefyd yn mynychu cyfarfodydd strategol y Bwrdd, gan sicrhau bod lleisiau'r staff yn cael eu clywed.






## Perthynas â rhanddeiliaid

Mae adeiladu perthynas gadarn â'n rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau. Rydym yn asesu'r perthnasoedd hyn yn rheolaidd gan ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cynllun hwn bob blwyddyn.

Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw

Thema 11:

# Lles Staff

Rydym yn gwybod mai ein pobl sy'n ein gwneud yn gryf. Dyna pam ein bod wedi ymroi i ddenu'r bobl fwyaf talentog a chreu tîm o unigolion amrywiol sydd wrth eu bodd yn cydweithio, yn byw yn unol â'n gwerthoedd ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
Mae ein gweithwyr yn gweithio'n hyblyg ledled gogledd Cymru, mewn saith sir. Rydym yn annog arferion gwaith creadigol, hyblyg sydd o fudd i bawb, ac rydym yn ymddiried yn ein timau i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o weithio.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant (CAC)

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i greu gweithle teg a chynhwysol. Dyma rai ystadegau allweddol am ein cynnydd:



**Bwlch cyflog rhwng y rhywiau:**
**16.89%**

**Cymhareb cyflog Prif Swyddog Gweithredol i weithiwr:**
**7:1**

Rydym am greu gweithle lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys. I'n helpu i wneud hyn, rydym wedi creu Cynllun Cynhwysol cynhwysfawr sy'n ymgorffori CAC ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae'n cyd-fynd â deddfwriaeth bwysig fel Fframwaith Rheoleiddiol Cymdeithasau Tai Llywodraeth Cymru, Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth ac LHDTC+, a Deddf yr Iaith Gymraeg.

Rydym hyd yn oed wedi penodi Arbenigwr CAC i'n Bwrdd. Mae'r unigolyn hwn yn sicrhau bod staff ag anghenion gwahanol yn derbyn y cymorth cywir ac mae'n helpu rheolwyr i wneud addasiadau angenrheidiol ar gyfer aelodau'r tîm.










## Dathlu cynhwysiant

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o ddathlu amrywiaeth. Dyma rai dyddiau ymwybyddiaeth rydym wedi'u cefnogi ar ein cyfryngau cymdeithasol, gwefan a'n cyfathrebiadau mewnol:

- Pride
- Wythnos Cynhwysiant Cenedlaethol
- Wythnos Niwroamrywiaeth
- Sesiynau Oed yn y Gwaith (gyda Business in the Community)
- Mis Hanes Pobl Ddu (yn cynnwys sesiwn arbennig 'Let's Talk' gyda Bernie Davies ar gyfer staff ClwydAlyn)
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

## Ehangu ein Rhwydwaith Cynhwysiant

Rydym wedi ehangu ein Rhwydwaith Cynhwysiant i roi mwy o lais wrth lunio penderfyniadau ar draws ClwydAlyn. Rydym hefyd yn cynnig mwy o hyfforddiant CAC i aelodau'r Bwrdd a staff ar niwroamrywiaeth a gwrth-hiliaeth, ac wedi creu 'nodiadau adolygu' diwylliannol i hwyluso dysgu.

Er mwyn gwella'r broses benderfyniadau, rydym yn treialu Fframwaith Cynhwysol newydd sy'n disodli'r asesiadau cydraddoldeb henffasiwn, gan sicrhau ein bod yn ystyried effeithiau ar bob grŵp. Mae CAC bellach wedi'i integreiddio'n llawn yn ein hadolygiadau polisi, gydag arweiniad ac adnoddau ar gyfer deiliaid polisi.


Gwnaethom gyflwyno ffurflen 'Dod i'ch Adnabod Chi' i wella'r wybodaeth CAC sydd gennym am staff a phreswylwyr – mae 80% o'r staff wedi llenwi'r ffurflen hyd yma. Rydym hefyd wedi gwella prosesau i roi gwybod am achosion o wahaniaethu ac wedi lansio ymgyrch ymwybyddiaeth o droseddau casineb sy'n cael ei hymestyn i breswylwyr erbyn hyn.

Yn olaf, ar ôl adolygu ein prosesau recriwtio, gwnaethom gyflwyno arolwg profiad recriwtio i gasglu adborth a gwneud ein proses mor gynhwysol â phosibl.




*"Mae amrywiaeth yn ffaith. Mae ecwiti yn ddewis. Mae cynhwysiant yn weithred. Mae perthyn yn ganlyniad."*

**- Arthur Chan, Strategaethwr DEI**



# Dod i'ch Adnabod Chi

Yn fuan iawn byddwn yn gofyn i'n holl breswylwyr lenwi neu ddiweddaru eu manylion ar ein ffurflen **'Dod i'ch Adnabod Chi'** am yr amrywiaeth o resymau a nodir isod. Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn adnabod ein cymunedau'n dda fel ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau gorau un i bawb.

### Cynllunio ymlaen llaw

Mae eich data yn ein helpu i wneud penderfyniadau ar ble i gyfeirio ein cynlluniau, mentrau a gwasanaethau. Trwy gael gwybodaeth gyfredol am ein preswylwyr, gallwn sicrhau ein bod yn teilwrio ein gwasanaethau ac yn sicrhau bod ein cynlluniau yn cael effaith ystyrlon yn y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

### Cael gwasanaethau yn iawn

Pan fydd ein preswylwyr yn rhannu eu gwybodaeth, mae'n ein helpu i gael ein gwasanaethau'n iawn. Efallai nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf ac y byddai'n well gennych gyfathrebu mewn iaith wahanol neu bod gennych anabledd ac y byddech yn cael budd o gefnogaeth ychwanegol y gallwn ni ei theilwrio i chi.

### Adnabod ein cymunedau

Rydym am eich adnabod chi! Rydym am sicrhau bod ein staff yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym am allu cynllunio digwyddiadau, cynnig cefnogaeth, rhoi cyngor a chyfarwyddyd sy'n addas ac o gymorth. Rydym am wneud gwahaniaeth.

### Tegwch

Mae arnom angen sicrhau ein bod yn deg yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau i bawb, a'n bod yn cael gwared ar unrhyw rwystrau y gall ein preswylwyr eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

### Mwy cynhwysol

Rydym am barhau i adeiladu diwylliant sydd yn hollol gynhwysol i'n preswylwyr ac aelodau o staff. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chefnogi pobl mewn modd sy'n gweithio iddyn nhw.

### Cyfrinachol

Pan fyddwch yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, rydym yn eich sicrhau y byddwn yn ei gadw yn gyfrinachol ac na fyddwn fyth yn trin unrhyw unigolyn yn wahanol. Dim ond i sicrhau eich bod chi fel person gwyn/du/hŷn/iau/syth/hoyw/dyn/menyw/anabl yn cael darpariaeth briodol y bydd eich data yn cael ei gadw. Mae cyfreithiau caeth iawn i sicrhau ein bod yn diogelu eich manylion ac yn ymdrin â nhw yn gyfrifol.



**Gallwch ddweud wrthym am feindio ein busnes.** Os yw'n well gennych beidio â rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda ni, yna gallwch ddewis peidio â chymryd rhan. Ond mae angen i chi ddal i lenwi'r ffurflen dod i'ch adnabod a dweud wrthym y byddai'n well gennych beidio â dweud.

25



ClwydAlyn | Inclusion Cribsheets

01 / LGBTQ+

# A useful guide to becoming an LGBTQ+ Ally within our workplace and our communities

**Over a third of LGBTQ+ people still feel they have to hide who they are at work.**

This means they have to watch what they say, what they do, and where they apply. It's crucial that LGBTQ+ people have the same opportunities as everyone else to unlock their potential in their career, and YOU can play a part by creating safe spaces in which everyone can thrive.

The Census undertaken in 2021 collected sexual orientation and gender identity data from over 16's for the very first time. 3% of the population in Wales reported that they were gay, bisexual or had a sexual orientation other than heterosexual.

0.4% (10,270) of the population in Wales reported that they had a gender identity different to their sex registered at birth (they were Trans).

These statistics may seem low at first glance, but with 7.6% of people opting out of the sexual orientation question and 6.3% of people opting out of the gender identity question, the percentage of those who identify as LGBTQ+ could in fact be much higher. It is crucial for us to create a welcoming environment where people feel they belong and can be themselves, which in turn will lead to a healthier, and more innovative and open culture for all.

## What can we do to become a better ally within our workplace and our communities?

**1. Educate yourself and others.**
We all have things that we need to learn more about – this isn't a personal failure, it's an opportunity for growth! Take the time to find out more about the experiences of the LGBTQ+ community by reading articles, watching videos, and following advocates on social media. You can then share this information with your colleagues and help foster a culture of learning at ClwydAlyn.

**2. Don't expect to be perfect immediately.**
During this learning process, you may hit roadblocks or unintentionally say things that upset others. It's OK to be kind to yourself during this journey and accept the learning curve. But it's also important to be accountable and to make an active effort to change any hurtful behaviours in future.

**3. Put your pronouns in email signatures.**
Putting your pronouns in visible places, such as in your email signature or next to your name on Zoom, signifies to all that you recognise the importance of pronouns to many LGBTQ+ people. It also allows those who may be less comfortable being out in the workplace to feel safer when sharing their own pronouns without fear of immediately outing themselves. However, it's also important to remember that some LGBTQ+ people might not be happy yet to share their pronouns – they may be exploring their identity or just want to maintain a level of privacy.

**4. Find out about reporting processes within our workplace.**
Be proactive in learning about our process to report instances of discrimination and/or hate crime that can help you to be an active member of the community, rather than a passive bystander. Many LGBTQ+ people may not feel comfortable reporting incidents themselves, for fear of outing themselves or risking their job security. That's why it's important for allies to speak up when they witness inappropriate or discriminatory behaviour in the workplace.

**5. Rally senior leaders to be active champions for Pride networks.**
Workplaces are the most successful at helping everyone thrive when a culture of inclusion trickles down from the top. Reach out and encourage senior leaders and directors to be vocal champions for inclusion and diversity networks! This helps LGBTQ+ employees feel as if their entire organisation supports them to be truly themselves at work.

**6. Don't ask LGBTQ+ people intrusive questions.**
It's never polite to ask probing questions about our colleagues' lives, but LGBTQ+ people often get asked personal questions about topics from their sex lives to their bodies. It's OK to be curious and to want to learn more, but it's often better to wait for a colleague to offer the information themselves. If you feel like you really need to ask them a personal question in order to support them better, perhaps find the time to do so in private, or give them a heads up so they have time to prepare.

**7. Step back and ensure you're centring the voices of LGBTQ+ people.**
When taking action to support LGBTQ+ people, remember to recognise your own privilege and step back when needed. It's so important for allies to use their voice to stand in solidarity with more marginalised communities – but it's equally as important to know when not to take up space. Listen to LGBTQ+ people and platform others when appropriate and possible.

**Should you need any additional support in promoting LGBTQ+ inclusion within our workplace or across our communities, please contact Holly, our Inclusion Specialist, on holly.reece@clwydalyn.co.uk or call 07827990385.**



## Lles: ein dull

Mae ein Tîm Lles – tri aelod staff gwych – wedi bod yn cefnogi 148 aelod o'r tîm dros y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi rhoi cymorth i bobl sydd yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, wedi cyfeirio pobl at wasanaethau cwnsela allanol, ac wedi gweithio gyda rheolwyr ar Gynlluniau Gweithredu Gwell Iechyd. Rydym hefyd yn datblygu Llwybr Straen yn Gysylltiedig â'r Gwaith i roi mwy o gymorth i staff.

Rydym yn falch ein bod yn gweithio tuag at ddod yn Sefydliad sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE). Mae ein hyfforddiant TrACE yn annog hybu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac rydym yn cynnig yr hyfforddiant hwn i'n holl staff newydd. Yn ogystal â hyn, rydym yn cyflwyno Rheoli Risg Trawma (TRIM) er mwyn helpu i reoli effeithiau digwyddiadau difrifol ar ein staff. Mae ein tîm yn arwain y Cylchoedd Dysgu Trais yn y Gwaith ac yn cynnig cymorth ar ôl digwyddiadau i staff yr effeithiwyd ar eu lles. Rydym hefyd yn olrhain ac yn dadansoddi'r holl gymorth a ddarperir.




Mae gan ddau aelod o'n Tîm Lles drwyddedau i ddarparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cymru, ac ar hyn o bryd mae 150 aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant i gynnig Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Rydym hefyd yn cynnal sesiynau lles i godi ymwybyddiaeth a rhoi adnoddau defnyddiol i staff.

Er mwyn cynnig rhagor o gymorth i bawb, rydym wedi ehangu'r adran 'Ffynonellau Cymorth' ar ein mewnrwyd, gan gynnig cyngor ar faterion ariannol, iechyd a lles cyffredinol. Mae ein grwpiau cymorth gan gydweithwyr- fel Menomania (ar gyfer y menopôs), Hafan Pawb (ar gyfer staff niwroamrywiol) a'r Rhwydwaith Cynhwysiant – yn rhoi cyfle i staff greu cysylltiadau a rhannu profiadau.

Rydym hefyd yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd a Lles rheolaidd, a'n bwriad yw lansio Cylchlythyr Lles i Reolwyr cyn bo hir.

Rydym yn cynnal arolygon rheolaidd ar Ddiogelu, Digwyddiadau, a Lles i gasglu adborth a gwneud gwelliannau. At hyn, rydym yn olrhain ac yn adrodd ar ddata am salwch a throsiant staff bob mis i nodi tueddiadau a datblygu strategaethau ar gyfer gwella.



Lois Ward - Llwybr i Swyddog Caffael

**"Dechreuais weithio yn fy rôl bresennol fel Llwybr i Swyddog Caffael yn ddiweddar, ac rwyf yn edrych ymlaen i ehangu fy ngwybodaeth a'm sgiliau.**

**Mae gweithio yn ClwydAlyn wedi fy ngalluogi i symud ymlaen i wahanol swyddi dros y blynyddoedd, gan gyfarfod pobl a thimau newydd, cael profiad mewn adrannau gwahanol ac ennill cymwysterau neu gyfleoedd hyfforddiant."**

## Datblygiad proffesiynol

Rydym yn credu mewn buddsoddi yn ein pobl. Rydym yn sicrhau bod gan ein staff y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu swyddi yn dda a datblygu eu gyrfaoedd yn y cyfeiriad maent yn ei ddymuno.

Y llynedd, gwnaethom sicrhau dros £90k ar gyfer prentisiaethau a chymwysterau a ariannwyd yn allanol. Rydym hefyd yn ad-dalu costau staff sy'n ymuno â sefydliadau proffesiynol, gan roi cyfle iddynt gael adnoddau dysgu ychwanegol.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal Adolygiad Datblygiad Staff i helpu staff i ddatblygu a sicrhau bod eu nodau personol yn cyd-fynd â chenhadaeth y cwmni. Mae staff hefyd yn cael cyfleoedd i gysgodi cydweithwyr, gwneud cais am secondiad neu ddilyn llwybrau swyddi i ddatblygu eu gyrfa. Yn 2023, gwnaethom gyflwyno Adnodd Llwybrau Gyrfaoedd i helpu staff i ystyried rolau gwahanol yn y cwmni.

Gwnaethom hefyd ddarparu hyfforddiant 'Sgyrsiau Ffyrnig' i 53 rheolwr er mwyn gwella eu sgiliau arwain, gan ganolbwyntio ar ddynameg tîm, datrys anghydfodau a hyfforddi. Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith o alluogi ein staff i fyw yn unol â'n gwerthoedd, sef ymddiriedaeth, gobaith, a charedigrwydd. At hyn, gwnaethom lansio Cwrs Rheolaeth ac Arweinyddiaeth newydd i helpu ein rheolwyr i adeiladu timau gwych.

**9.3%** o staff wedi cwblhau cymhwyster proffesiynol yn 2023/24.

**Dyma fanylion y rhai a enillodd gymwysterau:**

| | |
|---|---|
| **Dynion** | **21** |
| **Menywod** | **49** |

| Oed | Nifer a enillodd gymhwyster proffesiynol |
|---|---|
| O dan 20 | 0 |
| 20 - 29 | 4 |
| 30 - 39 | 15 |
| 40 -49 | 26 |
| 50 -59 | 23 |
| Dros 60 | 2 |

Thema 12:

# Cadwyn Gyflenwi

## Gwerth Cymdeithasol: ein dull

Rydym yn credu y dylai popeth rydym yn ei wneud, gan gynnwys sut rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau, gael effaith gadarnhaol. Dyna pam mae gwerth cymdeithasol yn rhan allweddol o'n proses brynu, gan ganolbwyntio ar y manteision i'r gymuned, yr amgylchedd a'r economi. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr sy'n rhannu ein gwerthoedd, gan sicrhau bod popeth rydym yn ei brynu yn dod â gwerth i'n cymunedau.

**Ein blaenoriaethau tlodi i breswylwyr**

## Ein Cenhadaeth

Gyda'n gilydd, i drechu tlodi

- Cynyddu gwaith, hyfforddiant, addysg a gwirfoddoli
- Lleihau tlodi bwyd
- Lleihau tlodi tanwydd
- Cynyddu cynhwysiant digidol

### Cwmpas Gwerth Cymdeithasol

Gweithgareddau a gwasanaethau sy'n mynd tu hwnt i'r gofyn i gyflawni canlyniadau gwerth cymdeithasol sy'n cyfrannu at ein blaenoriaethau tlodi a'n cenhadaeth i drechu tlodi.

---

## Prif Uchafbwyntiau:

**Gwerth Cymdeithasol mewn Contractau:** mae 10-20% o'n gwerthusiadau caffael yn blaenoriaethu gwerth cymdeithasol.

**Atebolrwydd:** Rydym yn troi addewidion gwerth cymdeithasol cyflenwyr yn Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y byddwn yn eu monitro drwy gydol y contractau.

**Pwyslais Lleol:** mae 100% o'n contractwyr datblygu yn dod o ogledd Cymru ac yn cyflogi pobl leol, ac mae 90% o'r cyflenwyr yn lleol hefyd.

**Cymorth Cymunedol:** Mae ein contractwyr yn cefnogi mentrau fel prosiect "We Mind the Gap", gan gynnig lleoliadau gwaith, hyfforddiant a swyddi.




## Contract yr Asiantaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Wedi cynnwys 10% o werth cymdeithasol yn y broses ddethol. Fe wnaeth y darparwr drawsnewid gerddi yn ein cynlluniau byw â chymorth a bydd yn cynnig hyfforddiant i 15 o breswylwyr i'w helpu i gael gwaith.




## Casgliadau Banc Bwyd Blynyddol:

Rydym yn annog ein cyflenwyr i gyfrannu bwyd neu wirfoddoli i gefnogi banciau bwyd lleol.



## Helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith

Rydym yn angerddol dros helpu pobl ifanc i roi hwb i'w gyrfa. Trwy interniaethau a rhaglenni fel We Mind the Gap (WMTG) a Phrosiect SEARCH, rydym yn cefnogi myfyrwyr ac oedolion ifanc i gael profiad gwaith a symud ymlaen i'r gweithle.

### Ein Heffaith yn 2023/24:

- Prosiect SEARCH: Wedi cefnogi saith o bobl ifanc.
- We Mind the Gap: Wedi cefnogi pedwar o bobl ifanc, ac mae un bellach yn Gynllunydd Cynnal llawn amser.






- Rhaglen WMTG Wrecsam: saith o raddedigion, mae tri ohonynt bellach mewn swyddi llawn amser.
- Rhaglen WMTG Sir y Fflint: naw o raddedigion, mae chwech ohonynt bellach yn gweithio, mae dau yn parhau i gael addysg ac mae un yn gwirfoddoli.

## Partneriaethau a chydweithio

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid lleol fel Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol, a Llywodraeth Cymru i gynyddu gwerth cymdeithasol yn ein cymunedau.

## Effaith amgylcheddol

Rydym wedi ymrwymo i redeg ein busnes yn gynaliadwy, gan sicrhau bod ein penderfyniadau yn ystyried yr amgylchedd yn ogystal â phobl.

### Ein dull:

- **Strategaeth Newydd:** Rydym yn datblygu Strategaeth Asedau a Chynaliadwyedd i'w chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref 2024.
- **Gofynion Cyflenwyr:** Rydym yn gofyn i gyflenwyr sut byddant yn ein helpu ni i leihau effeithiau amgylcheddol a bodloni safonau cynaliadwyedd.
- **Lleihau Teithio a'r Defnydd o Danwydd:** Rydym yn anfon timau rheng-flaen i weithio yn eu rhanbarthau lleol i leihau teithio a'r defnydd o danwydd.






Rydym hefyd yn cymryd camau i wella ein heffaith amgylcheddol a lleihau costau ar draws ein safleoedd byw â chymorth.

**Model Rhentu Nwyddau Gwyn ar Les:** Rydym wedi creu partneriaeth gyda chyflenwr byd-eang i ystyried rhentu nwyddau gwyn ar les (fel peiriannau golchi a sychu) ar gyfer rhai o'n safleoedd byw â chymorth ac mae hyn eisoes wedi lleihau ein defnydd o ynni, allyriadau a chostau.

**Lleihau plastigion a charbon wrth lanhau:**

- Rydym wedi gostwng y defnydd o blastigion untro 95% ar draws 12 safle gyda system ddosio newydd a gostwng danfoniadau 70%, gan leihau ein hôl-troed carbon.
- Cyfarfodydd Rhithiol: Rydym yn cynnal mwy o gyfarfodydd ar-lein, gan leihau teithio a'r effaith amgylcheddol.

### Enghreifftiau o'n hymdrechion amgylcheddol

**Casglu Gwastraff:** Symleiddio gwasanaethau i un cyflenwr i leihau contractau a gwella cynaliadwyedd.



**Gwasanaethau Glanhau Cynaliadwy:** Rydym wedi cyflogi gwasanaeth glanhau gyda thargedau cynaliadwyedd mewn golwg ar gyfer 2024.



**Cydweithfa Deunyddiau Adeiladu:** Gweithio gyda Chymdeithasau Tai Cymru i gyrraedd nodau amgylcheddol drwy Fframwaith Deunyddiau Cymru.





A C LI 2023/ 2024

ClwydAlyn

ClwydAlyn.co.uk · @ClwydAlyn